Rhif: **WG23847**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) Drafft 2015

Dyddiad cyhoeddi: **14 Ionawr 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **11 Mawrth 2015**

## Trosolwg

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyngor ddynodi swyddi penodol lle na chaiff rhywun sy'n dal un o'r swyddi hynny fod yn aelod o'r Cynulliad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am ba swyddi a ddylai gael eu cynnwys yn y Gorchymyn hwnnw.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gefn y ddogfen hon erbyn y dyddiad cau a'i dychwelyd atom yn y post i'r cyfeiriad isod:

Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (www.wales.gov.uk/consultations/?skip=1&lang=cy) a gellir ei hanfon atom drwy e-bost yn: capl@Wales.GSI.Gov.UK

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Gorffennaf 2014.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Anghymwyso Person rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ebost: capl@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 20 826 826

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015

## Cefndir

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad sicrhau eu bod yn gymwys i gael eu henwebu.  Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi a chyflwyno datganiad sy'n dweud eu bod yn gymwys i sefyll mewn etholiad.  Yn 2011, cafodd dau aelod a etholwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hanghymhwyso ar ôl iddi ddod i'r amlwg eu bod yn aelodau o gyrff cyhoeddus a restrwyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 fel swyddi anghymhwyso. Ni chafodd un ei sedd yn ôl ar ôl dysgu na wnaeth edrych ar y rheolau perthnasol, ond cafodd y llall ei sedd yn ôl ar ôl dysgu ei fod wedi cael cyngor nad oedd yn gyfredol.

Er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath yn etholiad Cynulliad 2016, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd ym mis Ionawr 2014 gan ofyn a fyddai'n ystyried gofyn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gynnal ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud â datgymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal yr ymchwiliad a chyhoeddodd ei adroddiad ar 30 Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad yn drylwyr a manwl iawn, gan arwain at 21 o argymhellion.  Mae'r Adroddiad yn cynnig trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghymwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.  Hefyd, gwna rai argymhellion ar gyfer swyddi a ddylai gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf, a ddaw i rym cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad ar 22 Hydref.  Cytunwn â phrif fyrdwn yr adroddiad ac rydym wedi cytuno i ymgynghori ar y cyrff i'w cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf mewn da bryd i'r ddeddfwriaeth honno fod mewn grym erbyn etholiad nesaf y Cynulliad.

### Beth yw'r prif faterion?

Roedd peth dryswch ynghylch pa swyddi yn union a fyddai'n cael eu hanghymhwyso at ddibenion etholiadau 2011.  Lluniwyd y rhestr o swyddi o'r fath gan ddefnyddio sawl ffynhonnell (Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y Gorchymyn Anghymhwyso mewn grym ar y pryd, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol a wnaed gan ddeddfwriaeth arall) ac, mewn rhai amgylchiadau, ymddengys fod dyblygu.

O ystyried y ffynonellau amrywiol hyn o ddarpariaethau anghymhwyso, gall fod yn anodd iawn i unrhyw ddarpar ymgeisydd fod yn siŵr nad yw, yn anfwriadol, wedi torri un o'r rheolau gwahardd.  Yn ogystal â chyflwyno Gorchymyn Anghymhwyso drafft newydd yn 2015, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol yn ôl yr angen, yn bwriadu cyhoeddi rhestr gynhwysfawr o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso rydym yn ymwybodol ohonynt, o ba ffynhonnell bynnag.

### Y sefyllfa bresennol

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru'r canlynol fel unigolion, neu grwpiau o unigolion, sydd “are disqualified from being an Assembly member”:

- barnwyr
- gweision sifil
- aelodau o'r lluoedd arfog
- aelodau o'r heddlu
- aelodau o ddeddfwrfeydd tramor
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- aelod o staff y Cynulliad
- unrhyw un sy'n dal swydd arglwydd-raglaw, rhaglaw neu uchel siryf rhan o Gymru ac y mae ei etholaeth neu ranbarth etholiadol yn cwmpasu neu'n cynnwys yr ardal a wasanaethir gan y swydd honno.

Yn ogystal â'r swyddi hynny a restrir yn adran 16, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ("Gorchymyn Anghymhwyso") ddynodi swyddi a chyflogaethau eraill lle byddai unrhyw ddeiliad yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 yn dal i fod mewn grym, felly caiff unigolion sy'n dal unrhyw un o'r swyddi a restrir yng Ngorchymyn 2010 eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad.

At hynny, o bryd i'w gilydd, gall deddfwriaeth arall anghymhwyso deiliaid rhai swyddi rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Er enghraifft, o ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, caiff Comisiynwyr, Comisiynwyr Ymchwilio ac aelodau o bwyllgorau gwneud penderfyniadau'r Comisiwn eu hanghymhwyso gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad.

Nid yw'r gorchymyn cyfredol sy'n gwneud pwerau o dan adran 16 yn ein galluogi i anghymhwyso unigolion rhag cael eu henwebu ar gyfer etholiadau'r Cynulliad; maent ond yn caniatáu inni anghymhwyso unigolion rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Fodd bynnag, oherwydd darpariaeth yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i bob ymgeisydd, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan, hyd eithaf ei wybodaeth neu gred, nad yw mewn swydd sy'n ei anghymhwyso.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r swyddi y cynigir eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf, a fydd yn cyd-fynd â'r rhai a nodir yn adran 16 ac unrhyw anghymhwyso penodol arall y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth arall (fel Deddf Cydraddoldeb 2006), er mwyn darparu'r rhestr lawn o swyddi anghymhwyso.

**Pam mae angen Gorchymyn Anghymhwyso newydd?**

Cyn pob etholiad y Cynulliad gwneir Gorchymyn Anghymhwyso newydd sy'n diddymu'r Gorchymyn blaenorol ac yn sefydlu rhestr newydd o swyddi anghymhwyso.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft i'w gymeradwyo gan y Cynulliad cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'w Mawrhydi yn ei Chyngor yn ddiweddarach eleni.

## Ein dull o ddrafftio'r Gorchymyn Anghymhwyso nesaf

### *Meini prawf arfaethedig ar gyfer penderfynu a ddylai swydd fod yn un anghymhwyso ai peidio*

I'r graddau mwyaf posibl o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, mae'r egwyddorion canlynol (sy'n gyfuniad o'r egwyddorion a argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ynghyd â rhai ystyriaethau ychwanegol yn ymateb Llywodraeth Cymru), wedi'u defnyddio er mwyn pennu pa swyddi y dylid ystyried eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso.

- Egwyddorion cyffredinol a nodwyd yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor:
  Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod Cynulliad yn hollbwysig.

  Egwyddor 2: Dylai anghymwyso person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

  Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:
  i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;
  ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau pan gaiff unigolyn ei ethol; a
  iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.

  Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwyso fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:
  i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiduedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
  ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
  iii. y rheini sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;
  iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Cynulliad yn craffu arni.

  Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwyso, rhaid iddynt fod:
  i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;
  ii. yn glir ac yn ddiamwys;
  iii. yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 o Adroddiad y Pwyllgor fod yn swyddi anghymhwyso a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso, oni fyddant eisoes wedi'u cynnwys yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- Dylai aelodau tribiwnlysoedd barnwrol gael eu hanghymhwyso.

- Fel rheol, dylai unigolion a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hanghymhwyso, ond gall fod achosion lle na ddylid gwneud hynny (os felly bydd yn bwysig ystyried y pum egwyddor y cyfeiriwyd atynt uchod).

- Ni ddylai staff cyrff cyhoeddus fel y'u disgrifir yn argymhelliad 13 o Adroddiad y Pwyllgor (e.e. staff Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau'r Heddlu, Tân ac Achub, staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) gael eu hanghymhwyso - cred Llywodraeth Cymru y gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w swyddi petaent yn cael eu hethol, oherwydd byddai parhau mewn swydd o'r fath, tra'n cyflawni cyfrifoldebau fel aelod o'r Cynulliad, yn rhoi baich amhosibl ar yr unigolyn.

O ganlyniad i roi'r egwyddorion hyn ar waith, mae'r rhestr o swyddi anghymhwyso yn fyrrach nag yng Ngorchymyn Anghymhwyso 2010. Rhydd Atodiad A y swyddi a gafodd eu cynnwys yng Ngorchymyn Anghymhwyso 2010 ond nad ydym yn cynnig eu cynnwys yng Ngorchymyn Anghymhwyso 2015.

***Hygyrchedd ac eglurder y Gorchymyn drafft***

Wrth inni weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol cyn etholiadau nesaf y Cynulliad er mwyn llunio rhestr gynhwysfawr o'r holl swyddi anghymhwyso - y rhai a restrir yn y Gorchymyn Anghymhwyso a'r rhai sydd wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall - credwn ei bod hefyd yn bwysig i wneud y Gorchymyn drafft ei hun mor hygyrch a chlir â phosibl.

Yn y Gorchymyn drafft rydym, felly, wedi nodi'r swyddi anghymhwyso yn nhrefn y wyddor, ar ffurf tabl, yn hytrach na'r ddwy restr sydd wedi ymddangos mewn Gorchmynion blaenorol (un yn rhestru'r cyrff lle mae eu haelodau wedi'u hanghymhwyso a'r llall yn rhestru swyddi anghymhwyso eraill).

***Diweddaru***

Hyd eithaf ein gwybodaeth, rydym wedi sicrhau bod enwau cyrff y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn drafft yn gywir ac yn gyfredol ac ni chyfeiriwn at unrhyw gyrff a ddiddymwyd ers i Orchymyn 2010 ddod i rym.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru wedi cael eu cynnwys gan dybio y byddant wedi'u sefydlu erbyn i'r Gorchymyn ddod gerbron y Cynulliad i'w ystyried.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Croesewir eich ymatebion a rhoddir ffurflen ymateb ar gefn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

**Cwestiwn 1:**
A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?

**Cwestiwn 2:**
A oes unrhyw swyddi eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft, neu sydd wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall, a ddylai anghymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad? Os oes, beth arall sydd angen ei gynnwys a pham?

**Cwestiwn 3:**
Os oes unrhyw faterion eraill nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol yn y cwestiynau uchod, nodwch hwy isod.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 11 Mawrth 2015.

**Atodiad A**

**Cafodd yr aelodau o'r cyrff canlynol eu hanghymhwyso yng Ngorchymyn 2010 ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Drafft 2015:**

- Asiantaeth Diogelu Iechyd
- Bwrdd Adfer Ynys Môn
- Bwrdd Ardollau Cymru
- Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Comisiwn Ansawdd Gofal
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *(heb ei gynnwys gan fod Comisiynwyr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006)*
- Comisiwn Cynhaliaeth a Gorfodi Plant
- Comisiwn Gwasanaethau Post
- Corfforaeth datblygu trefol ar gyfer ardal datblygu trefol sy'n gyfan gwbl yng Nghymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Gwasanaeth Cystadleuaeth
- Panel Apeliadau Annibynnol Ffermwyr
- Partneriaeth Cynghori Bwyd a Diod
- Pwyllgor Cymrodeddu Canolog
- Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol
- Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth

**Cafodd y swyddi canlynol eu hanghymhwyso hefyd yng Ngorchymyn 2010 ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Drafft 2015:**

- Archwilydd Cyffredinol Cymru *(y swydd heb ei chynnwys gan ei bod eisoes wedi'i hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)*
- Cadeirydd a dirprwy gadeirydd Bwrdd Apeliadau'r Gwasanaeth Sifil
- Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru
- Cadeirydd ac is gadeirydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy
- Cadeirydd ac unrhyw aelod arall o'r Cyngor Teithwyr sy'n cael cydnabyddiaeth
- Cadeirydd Panel Cynllun Sicrwydd Cig Eidion
- Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol Comisiwn Ffiniau Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban
- Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol
- Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd
- Cyfarwyddwr cwmni Swyddfa'r Post (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000) sy'n gyfarwyddwr a enwebwyd neu a benodwyd gan un o Weinidogion y Goron neu gan unigolyn yn gweithredu ar ran y Goron
- Llysgennad neu Gynrychiolydd Parhaol sefydliad rhyngwladol sy'n cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig
- Llywodraethwr neu Weinyddydd tiriogaeth dramor Brydeinig o fewn ystyr adran 50(1) o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981
- Staff Comisiynydd Plant Cymru

- Staff Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Uchel Gomisiynydd sy'n cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig
- Ymddiriedolwr y Gronfa Byw'n Annibynnol (2006)

Noder bod rhai o'r cyrff neu'r swyddi a gafodd eu cynnwys yng Ngorchymyn 2010 wedi'u hailenwi neu eu huno â chyrff eraill ers i Orchymyn 2010 gael ei wneud. Nid yw'r cyrff a'r swyddi hyn wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod, os caiff swyddi cyfatebol i'r rhai sydd wedi'u hanghymhwyso o dan Orchymyn 2010 hefyd wedi'u hanghymhwyso yng Ngorchymyn drafft 2015.

Er enghraifft, mae gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru bellach yn cael ei gyflawni gan Adnoddau Naturiol Cymru. Gan fod aelodau a Phrif Weithredwr Adnoddau Naturiol Cymru wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn drafft 2015, byddai swyddi cyfatebol i'r rhai a gafodd eu hanghymhwyso ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth wedi'u hanghymhwyso o hyd.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| E-bost: | |
| Ffôn: | |
| Cyfeiriad: | |
| Cod post: | |
| Sefydliad (os yn gymwys) | |

**Dychwelyd y ffurflen hon**

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **11 Mawrth 2015**

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau atom drwy e-bost yn:

**capl@wales.gsi.gov.uk**

Neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Os byddwch yn anfon eich ymateb drwy e-bost, rhowch y canlynol fel eich pwnc:
**Ymgynghoriad Gorchymyn CCC (Anghymhwyso) 2015**

**Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?**

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

**Os nad ydych, eglurwch**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2. A oes unrhyw swyddi eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft, neu sydd wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall, a ddylai anghymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad?**

**Oes** ☐
**Nac oes** ☐

**Os oes, pa rai eraill sydd sydd angen eu cynnwys a pham?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3. Os oes unrhyw faterion eraill nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol yn y cwestiynau uchod, nodwch hwy isod:**

| |
|---|
| |

Mae'n debyg y caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, ticiwch yma: ☐